**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 14eg o Fawrth 2019 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Siân Anwyl Jones, Eryl Owain, Lun McFadden, Geraint Thomas, y Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones a'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eifion Davies, Claire Roberts a Dewi Jones.

Cyn y cyfarfod bu'r aelodau'n cyfarfod Nadeem Abam i darfod ei gynlluniau i agor siop yn y pentref ac i weld ei gynlluniau i addasu'r adeilad.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:** Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i Trystan Edwards o'r Ymddiriedolaeth i drafod y cynlluniau ar gyfer ffarm Carrog. Eglurodd fod arian wedi ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer prynu'r ffarm a'u bod wedi derbyn grant o £120,000 i wneud gwelliannau i'r afon, i blannu gwrychoedd a ffensio 2.5 km ac i blannu 2 hectar o goed. Y bwriad yw gosod y ffarm i denant, 45 acer gydag 20 acer arall i'w defnyddio dros yr haf yn unig.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 17eg o Ionawr 2019 fel rhai cywir, Lun McFadden yn cynnig a Colin Jones yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Ffordd Hafod-y-rhedwydd:** Gan fod cyflwr y ffordd wedi dirywio ymhellach, penderfynwyd pwyso ar y Cyngor Sir i'w hatgyweirio cyn gynted â phosibl.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Ni chafwyd ymateb gan GNC i'r cais am gyfarfod ac am fwy o fanylion am y sybniad o drosglwyddo llain o dir i ofal y gymuned.

**Ffyrdd:** Dim gwybodaeth am y cais i gyflwyno gwaharddiad parcio 20 milltir yr awr ger yr ysgol. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir.

**Plac enillwyr Cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn** – Cadarnhawyd fod copi o'r plac wedi ei fframio ac wedi ei gyflwyno i Ganolfan Shiloh. Mynegwyd gwerthfawrogiad fod Guto Williams wedi gwneud y ffrâm yn ddi-dâl. Derbyniwyd gynnig Geraint Thomas i osod y plac gwreiddiol ar y *Green*, gan godi tâl am y defnyddiau'n unig.

**Mynwent yr Eglwys:** Nid oedd prisiau ar gyfer gwaith tacluso wedi eu derbyn.

**Mynwent Arwelfa:** Mae'r arwydd Newydd wedi ei gwblhau. Derbyniwyd gynnig Geraint Thomas i'w osod yn ei le.

**Llwybr Blaen-cwm:** Penderfynwyd bod angen gwaith pellach ar lwybr Blaen Cwm a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Brodyr Roberts.

**Ceisiadau Cynllunio:** Trafodwyd dau gais cynllunio ar gyfer adeilad ychwanegol yn Llawr Ynys a chynllun trydan dŵr bach yn Hafod y Rhedwydd. Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais.

**Materion Ariannol:** Cafwyd adroddiad ariannol gan y clerc. Cadarnhawyd y dylid talu bil i Richard Thomas am arwydd newydd i Fynwent Arwelfa.

Penderfynwyd ar y cyfraniadau ariannol canlynol: Canolfan Shiloh - £300; Cylch Ti a Fi - £350; Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri - £200 ac Ambiwlans Awyr Cymru - £150.

Penderfynwyd parhau ag aelodaeth o Un Llais Cymru.

**Materion eraill:**

**Menter Bro Machno:** Cafwyd wybod fod yr un swyddogion yn parhau ond nad yw'r Fenter yn weithredol heblaw am gynnal a chadw'r trac beicio.

**Ffyrdd:** Penderfywnyd cysylltu â'r Cyngor Sir gan fod dŵr ar y ffordd ger Park Hill.

**Ymddiswyddo:** Cyhoeddodd y clerc ei fwriad i ymddiswyddo ar ddiwedd Tachwedd 2019. Penderfynwyd trafod y mater yn llawn yn y cyfarfod nesaf.